Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Pwy sydd yn gallu pleidleisio

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Pwy all bleidleisio**



Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


Pwy sydd yn gallu pleidleisio .................................................. 4

Cofrestru i bleidleisio ................................................................ 7

Sut i gofrestru .............................................................................. 9

Pobl yn y lluoedd arfog ............................................................. 11

Pobl sydd heb gyfeiriad sefydlog ........................................... 13

Myfyrwyr ....................................................................................... 15

Cofrestru fel pleidleisiwr dienw .............................................. 16

Pleidleisio os ydych chi wedi symud allan o Gymru ....... 19

# Pwy sydd yn gallu pleidleisio



Mae bron pawb sy'n byw yng Nghymru yn gallu pleidleisio yn etholiad y Senedd.




**Mae etholiad nesaf y Senedd ar 7 Mai 2026.**

**I bleidleisio mae'n rhaid i chi:**



- Bod wedi cofrestru i bleidleisio.



- Bod yn 16 oed neu'n hŷn.




- Byw yng Nghymru.




- Peidio â chael eich gwahardd rhag pleidleisio yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, oherwydd eich bod yn y carchar, neu oherwydd eich bod o dan 16 oed.




Rhaid i chi gofrestru i bleidleisio erbyn **hanner nos ar 20 Ebrill 2026**.



Rydych chi’n gallu cofrestru i bleidleisio yma: gov.uk/register-to-vote

**I gofrestru, rhaid i chi fod yn:**




- Dinesydd Prydeinig.



- Dinesydd Gwyddelig.



- Dinesydd o wlad yr Undeb Ewropeaidd.




- Rhywun sy'n gallu dod i mewn neu aros yn y DU.




Rhaid i chi gofrestru erbyn **hanner nos 20 Ebrill 2026.**




Dim ond unwaith mae angen i chi gofrestru
i bleidleisio.




Does dim angen i chi gofrestru bob tro mae etholiad yn cael ei chynnal.



Mae angen i chi gofrestru eto os bydd eich manylion yn newid. Er enghraifft, oherwydd eich bod chi'n newid eich enw neu gyfeiriad.

# Sut i gofrestru




Rydych chi'n gallu cofrestru ar-lein neu drwy'r post.
www.gov.uk/register-to-vote

**Mae angen i chi roi:**




- Eich enw llawn.





- Dyddiad geni.




- Cyfeiriad.



- Cenedligrwydd – er enghraifft, Prydeinig, Cymreig.




- Eich rhif Yswiriant Gwladol. Os nad oes gennych 1, rydych chi'n dal i allu cofrestru.



Rydych chi'n gallu cofrestru i bleidleisio o 14 oed. Ond mae'n rhaid i chi fod yn 16 i bleidleisio.

# Pobl yn y lluoedd arfog



Mae pobl yn y Fyddin, y Llynges neu'r Llu Awyr yn gallu cofrestru fel **pleidleisiwr gwasanaeth**.



Os ydych chi yn y lluoedd arfog mae angen i chi lenwi ffurflen gofrestru pleidleiswyr: gov.uk/register-to-vote-armed-forces

**Mae angen i chi ddewis os ydych chi eisiau:**



- Pleidlais drwy'r post: bwrwpleidlais.cymru/gwybodaeth-am-bleidleisio/sut-i-bleidleisio-drwyr-post



- Pleidlais drwy ddirprwy: bwrwpleidlais.cymru/gwybodaeth-am-bleidleisio/sut-i-bleidleisio-drwy-ddirprwy




Mae pleidlais drwy ddirprwy yn meddwl dewis rhywun rydych chi’n ymddiried ynddyn nhw i bleidleisio drosoch chi mewn gorsaf bleidleisio. Mae mwy o wybodaeth yma: Sut i bleidleisio drwy ddirprwy

# Pobl sydd heb gyfeiriad sefydlog



Rydych chi'n gallu peidleisio os nad oes gennych chi gyfeiriad sefydlog.



Mae cyfeiriad sefydlog yn meddwl eich cyfeiriad cartref parhaol.



**Rydych chi'n gallu:**

- Rhoi'r cyfeiriad y byddech chi'n byw ynddo pe bai'ch sefyllfa yn wahanol. Er enghraifft, os ydych chi newydd wahanu gyda'ch partner ac wedi symud allan.
- Rhoi cyfeiriad roeddech chi'n arfer byw ynddo.
- Rhoi cyfeiriad lle rydych chi'n treulio'r rhan fwyaf o'ch amser.




Mae angen i chi lenwi'r ffurflen yma:
assets.publishing.service.gov.uk/media/67fce9af694d57c6b1cf8cb7/ITR-N-W_NoFixed.pdf



Rhowch y ffurflen hon i'ch cyngor lleo.

# Myfyrwyr



Os ydych chi'n fyfyriwr gyda 2 gyfeiriad, rydych chi'n gallu cofrestru i bleidleisio yn y ddau gyfeiriad.




Ond dim ond unwaith rydych chi'n gallu pleidleisio.




Mae'n drosedd i bleidleisio fwy nag unwaith.

# Cofrestru fel pleidleisiwr dienw



Os nad ydy hi'n ddiogel i chi fod ar y gofrestr etholiadol, rydych chi'n gallu cofrestru fel pleidleisiwr dienw.




Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestr o'r holl bleidleiswyr cofrestredig. Mae eich enw a'ch cyfeiriad arno.




Os ydych chi'n cofrestru fel pleidleisiwr dienw, fydd eich enw a'ch cyfeiriad ddim yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.



Fe fydd angen i chi esbonio pam nad ydy hi’n ddiogel i chi fod ar y gofrestr etholiadol.



Fe fydd angen i chi roi prawf gan lys neu berson swyddogol. Mae mwy o wybodaeth yma: [gov.uk/government/publications/register-to-vote-anonymously](https://gov.uk/government/publications/register-to-vote-anonymously)




Os byddwch chi’n cofrestru fel pleidleisiwr dienw, fyddwch chi ddim yn cael unrhyw ffurflenni neu wybodaeth i’ch cyfeiriad.



Fe fydd eich cyngor yn cysylltu â chi.




Dim ond am 1 flwyddyn rydych chi'n gallu cofrestru fel pleidleisiwr dienw.




Fe fydd angen i chi wneud cais eto ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.



Cliciwch yma i gofrestru fel pleidleisiwr dienw.

# Pleidleisio os ydych chi wedi symud allan o Gymru



Os nad ydych chi'n byw yng Nghymru, dydych chi ddim yn gallu pleidleisio yn y Senedd neu etholiadau'r cyngor.



Rydych chi'n gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU o hyd.



Os ydych chi'n byw dramor, fe fydd angen i chi gofrestru fel pleidleisiwr tramor.